

Ysgol Gymunedol Peniel  
Peniel  
Caerfyrddin  
SA32 7AB



Peniel Community School  
Peniel  
Carmarthen  
SA32 7AB

Rhif Ffon: 01267 234296  
Epost: [admin@peniel.ysgolccc.cymru](mailto:admin@peniel.ysgolccc.cymru)

Tel No: 01267 234296  
Email: [admin@peniel.ysgolccc.cymru](mailto:admin@peniel.ysgolccc.cymru)

Pennaeth/Headteacher  
Miss E H Powell

**01/09/25**

Croeso anferthol nôl i bawb, gobeithio i chi fwynhau'r gwyliau.  
A huge warm Welcome back, hope you all enjoyed the holidays.

### LLYTHYRON / LETTERS

Gan amlaf, ceisiwn ein gorau i ddanfôn llythyron a gwybodaeth allan ar brynhawn Gwener, felly cofiwch wirio eich e-byst (**Blwch mewnbwn a blwch sothach**)! Serch hyn, caiff ambell i lythyr ei rannu yn ystod yr wythnos. Cofiwch, ac eithrio ambell ffurflen caniatâd, caiff pob llythyr ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol yn ogystal.

Normally, we try our utmost to send all correspondence out on Fridays. Therefore, please check your emails (**Inbox and junk mail**)! However, occasionally there are instances where letters need to be distributed sooner during the week. Remember, apart from the occasional consent slips, all letters are published on our website.

### BOREAU / MORNINGS

Carwn eich atgoffa nad oes unrhyw blentyn i fod yn yr ysgol **cyn 8.50 am** oherwydd rhesymau Iechyd a Diogelwch ac eithrio plant sydd yn mynd i'r Clwb Brecwast o 8.00 – 8.50 am (**mynediad olaf 8.25 am**). Mynedfa ar gyfer y Clwb Brecwast a Chlwb yr Enfys yw cefn y Neuadd. **Cofiwch gadw at y llwybr troed**. Gwnewch bob ymdrech i sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 9 o'r gloch.

Mynedfa plant Blynnyddoedd Derbyn i Flwyddyn 3 (Dosbarth Hengil a Henllan) yn parhau i fod yng nghefn yr ysgol. Bydd aelod o staff yno i gwrdd â chi.

Plant Blynnyddoedd 4 - 6 (Dosbarth Hafod a Hendre) i ddod mewn i'r dosbarthiadau trwy'r brif fynedfa.

We would like to remind you that the children should not arrive at school before 8.50a.m. because of Health and Safety issues, except for the children who attend our Breakfast Club which starts at 8.00 until 8.50 a.m (last entry 8.25 am). The entrance for the Breakfast Club and Clwb yr Enfys is at the back of the Hall. Please make every effort to ensure that your child arrives at school before 9 o'clock.

Reception to year 3 learners (Hengil and Henllan) to use the back of the school to come into their classes. A member of staff will be there to meet you.

Years 4 - 6 learners (Hafod and Hendre) to use the main entrance to come into school.

## DIWEDD DYDD / END OF THE DAY

Derbyn i Flwyddyn 3 – Plant i gael eu casglu o gefn yr ysgol (Maes Parcio) am **3:25 y.p.**  
Blynyddoedd 4 – 6 – Plant i gael eu casglu o flaen yr ysgol (dewch tu fewn i'r giatiau) am **3:30 p.m.**

**Casglu'n brydlon ddiwedd y dydd** – A wnewch chi sicrhau eich bod yn casglu'ch plant yn brydlon ddiwedd y dydd os gwelwch yn dda. **Mae'r gloch yn canu am 3:30.** Gwn ei bod hi'n anodd gyda dau bwynt casglu ond mae nifer o blant yn gyson hwyr yn cael eu casglu'n ddiweddar. Awgrymon ein bod yn casglu'r plant bach gyntaf cyn nôl y rhai hŷn.

Reception to Year 3 – Children to be collected from the back of the school (Car Park) at **3:25y.p.**  
Years 4 – 6 – Children to be collected from the front of the school (within school gates) at **3:30p.m.**

**End of the day** – Could you please ensure that you collect your children promptly at the end of the school day. **The bell rings at 3:30.** I know it's difficult with 2 collection points, but a number of children are often late being collected. We suggest that you collect the younger children before you collect the older ones.

## PRYDLONDEB / PUNCTUALITY

Cyrraedd yr ysgol ar amser – Mae'n ofynnol arnom i gadw cofnod o blant sydd yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn gyson. Bydd yn rhaid i unrhyw blentyn sy'n cyrraedd yn hwyr gael eu hebrwng gan riant. Bydd yn rhaid cwblhau ffurflen 'hwyr yn cyrraedd' gyda rheswm dilys.

Arriving at school on time - as a school we must keep a note of pupils who are continually arriving late to school. Any child that is arriving late must be accompanied by an adult to the main reception. A late form must be completed and signed with a valid reason.

## MAES PARCIO STAFF / STAFF CAR PARK

Gofynnwn yn garedig i **NEB** ddefnyddio maes parcio'r staff – diolch i chi am eich cydweithrediad.

We kindly ask you **not** to use the staff car park - thank you for your co-operation.

## ABSENOLDEB / ABSENT

**Absenoldeb – os fydd eich plentyn yn absennol RHAID :**

1. Cysylltu a'r ysgol i ddweud na fydd eich plentyn yn yr ysgol (galwad ffôn neu e-bost cyn 9.10)

Absent from school – if your child is absent from school, you **MUST:**

1. Inform the school that your child will be absent (telephone or e-mail before 9:10)

## MODDION YN YR YSGOL / MEDICINE

Mae aelodau staff wedi cytuno'n wirfoddol i **weinyddu moddion sydd ar bresgripsiwn meddyg**. Mae'n rhaid i chi rieni/gofalwyr ddod a'r moddion presgripsiwn i'r ysgol a'i drosglwyddo yn ddiogel a chwblhau ffurflen "Caniatâd Gweinyddu Moddion". Ni allwn weinyddu unrhyw feddyginiaeth heb y ffurflen. **Mae copi o'r ffurflen ar gael ar wefan yr ysgol neu yn y brif fynedfa.**

Staff have voluntarily agreed to **administer medicines prescribed by a doctor**. Parents/Guardians must bring the prescribed medicine to the school and transfer it safely and complete a "Medication Administration Permission" form. We cannot administer any medication without the form. **A copy of the form is available on the school website or from the main reception.**



## GWISG YSGOL / SCHOOL UNIFORM

Apeliwn arnoch i wneud yn siŵr fod **ENW EICH PLENTYN** ar bob dilledyn o'i eiddo er mwyn hwylustod pan fo pethau yn mynd ar goll.

**Hoffwn eich atgoffa o'n gwisg ysgol:**

Trowser du neu lwyd neu sgert ddu neu lwyd i ferched os dymunant. **Nid yw gwisgo jîns na leggings yn dderbyniol nac ychwaith 'skins' o dan siorts.** Ni chaniateir ategolion megis gemweithiau, 'chokers'. Os yn gwisgo bandiau pen – gofynnwn yn garedig iddynt fod yn rhai defnydd sy'n gorwedd ar y pen. Mae hyn oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. **Nid yw 'hoodies' yn rhan o wisg ysgol.**

**Ni chaniateir unrhyw glustdlysau oni bai am styds.**

**Please make sure that your CHILD'S NAME is written clearly on each item of clothing for convenience when items are misplaced or lost.**

**A little reminder about school uniforms:**

Black or grey trousers or a grey or black skirt for girls if they wished. **Jeans or leggings are not acceptable neither are skins under shorts.** Accessories such as chokers, jewellery are not permitted. If wearing a headband / hairband, please ensure that they are made of fabric and sit flat on the head. These rules are in place for health and safety reasons. **Hoodies are not a part of the school uniform.**

**Only stud earrings are permitted.**

## GWERSI ADDYSG GORFFOROL / PHYSICAL EDUCATION LESSONS

LLUN / MON	MAWRTH / TUES	MERCHER / WED	IAU / THURS	GWENER / FRI
Hengil			Hafod	Hengil
Henllan			Hendre	

**COFIWCH FOD ANGEN I'CH PLENTYN / PLANT DDOD I'R YSGOL MEWN DILLAD ADDAS AR GYFER Y SESIYNAU - crysau-t plaen a siorts neu leggings / trowsus chwaraeon.**

**DIM CIT PEL DROED / RYGBI!**

**DIM TUNICS / FFROGIAU / DUNGAREES / SIACEDI DENIM / UGGS / CROP TOPS**

**THE CHILDREN ARE REQUIRED TO COME TO SCHOOL IN APPROPRIATE CLOTHING FOR THESE SESSIONS - plain t-shirt and shorts or leggings / joggers.**

**NO FOOTBALL OR RUGBY KITS!**

**NO TUNICS / DRESSES / DUNGAREES / DENIM JACKETS / UGGS / CROP TOPS**

### **PRYDAU YSGOL AM DDIM / FREE SCHOOL MEALS**

Os ydych yn meddwl eich bod yn haeddiannol o gael pryddau ysgol am ddim i'ch plant, yna mae ffurflenni cais ar gael ar wefan y Sir neu cysylltwch â'r ysgol.

If a family believes that they may be eligible for free school meals, then please visit Carmarthenshire County Council's website for further information or contact the school.

### **ARIAN / MONEY**

Carwn eich atgoffa os oes gennych unrhyw arian i ddod i'r ysgol i'w rhoi mewn **amlenni**. Bydd angen amlen ar gyfer pob taliad ar wahân. **Cofiwch ysgrifennu enw eich plentyn, pwrpas y taliad a'r cyfanswm ar flaen yr amlen**. Diolch am eich cydweithrediad.

I would like to remind you, if you have any money to bring into school to place the money in an **envelope**. You will need a separate envelope for each payment. **Would you be as kind as to write your child's name, purpose of payment and the total clearly on the envelope**. Thank you for your co-operation.

### **SIOP FFRWYTHAU / FRUIT SHOP**

**Ni fydd siop ffrwythau tan 08/09/25, Wele lythyr ar wahân.**

**Fruit Shop will reopen on the 08/09/25. Please see separate letter.**

### **POTELI DŴR / WATER BOTTLES**

Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau fod eich plentyn/plant yn dod â photel dŵr gyda nhw i'r ysgol - ni chaniateir unrhyw *squash* neu sudd.

We kindly ask you to ensure that you child/children bring water bottles with them to school - we do not allow any squash or juices.

### **TREFNIADAU BWS AR DDIWEDD Y DYDD / BUS ARRANGEMENTS AT THE END OF THE DAY**

Rydym yn parhau gyda'r system slipiau, bydd angen cofnodi pa ddiwrnodau mae eich plentyn/ plant yn mynd ar y bws. Cesglir y slipiau pob bore Llun. Cofiwch gysylltu â'r ysgol mewn da bryd (Cyn 12:00) os bydd newidiadau i'r drefn.

We shall be continuing with our 'slip' system, whereby parents of children travelling on the school bus complete a weekly slip which is brought to school on Monday mornings. Remember to contact the school if there's any change during the week (before 12:00).

### **GWEFAN YR YSGOL / SCHOOL WEBSITE**

Cofiwch am ein gwefan. Y lle gorau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am lythyrau, dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur, gwybodaeth gyffredinol a throsolwg o beth sydd ymlaen.

**<https://www.usgolpeniel.cymru/>**

Don't forget to look at our website. The best place to get the latest information on letters, dates for your diary, general information and an overview of what's on.

## OUR SCHOOL APP

Cofiwch lawr lwytho AP yr ysgol i'ch ffôn symudol/taled - er mwyn cael yr holl ddyddiadau, digwyddiadau a newyddion diweddaraf. Unrhyw broblemau cysylltwch â'r Ysgol.

Could you please download the school APP to your mobile phone/tablet - where all the latest dates, events and news are published. Any problems, please contact the school.



## DOSBARTH HENGIL (MRS PHILLIPS) CLASS

A oes modd i chi sicrhau fod dillad sbâr ym mag eich plentyn/plant rhag ofn damwain, trochi, salwch.

Could you please ensure that you have spare clothes for your child/children in their bag/bags in case there's a need to change clothes.

## BAG YSGOL / SCHOOL BAG

Gofynnwn i chi sicrhau nad fod eich plentyn/plant yn dod ag ategolion gyda nhw i'r ysgol e.e. Gemwaith, colur, *lipgloss*, teganau, llyfrau dwldo ayyb. Dylid lleihau y nifer o stwff y mae dysgwyr yn cludo'n ôl ac ymlaen gyda nhw i'r ysgol.

We kindly ask you to ensure that your child/children do not bring accessories and gadgets with them to school i.e. jewellery, make-up, lip gloss, toys, doodling books etc. The amount of "stuff" learners carry with them back and forth to school should be kept to a minimum.

## CLYBIAU ALLGYRSIOL / EXTRA CURRICULAR CLUBS

Byddwn yn gyrru manylion pellach i chi am glybiau allgyrsiol wythnos nesaf. Ni fydd clybiau allgyrsiol yn cael eu cynnal yn y bythefnos gyntaf.

Information regarding extracurricular clubs will be shared next week. No extracurricular clubs will be held during the first two weeks.

## CLWB YR ENFYS - CLWB GOFAL AR ÔL YSGOL / AFTERSCHOOL CLUB

Hoffwn eich atgoffa bod angen archebu lle yn y clwb cyn 12:30 y diwrnod hynny. Bydd y clwb yn ceisio sicrhau llefydd i'r sawl sy'n ffonio ar y dydd (e.e. mewn argyfwng) ond ni allwn sicrhau hyn.

We would like to remind you that a place should be reserved for your child/children before 12:30 on that day. The club will endeavor to accommodate children who are booked in at the last minute (i.e. in an emergency) but places cannot be guaranteed.

**RHIF F FON ARCHEBU LLE: 07538634230**


**CONTACT NUMBER TO BOOK A PLACE: 07538634230**



# LLWYDDO GYDA'N GILYDD

# SUCCEEDING TOGETHER



	Dydd Llun / Monday	Dydd Mawrth / Tuesday	Dydd Mercher / Wednesday	Dydd Iau / Thursday	Dydd Gwener / Friday
	1	2	3	4	5
W 1	HMS INSET				
	8	9	10	11	12
W 2					DIWRNOD ROALD DAHL DAY
	15	16	17	18	19
W 3		CLWB BLWYDDYN 6 YEAR 6 CLUB			DIWRNOD JEANS 4 GENES DAY 
	22	23	24	25	26
W 4	LLUNIAU YSGOL SCHOOL PHOTOS	CLWB BLWYDDYN 6 YEAR 6 CLUB	DIWRNOD FFITRWYDD CENEDLAETHOL INTERNATIONAL FITNESS DAY		
	29	30	1	2	3
W 5		CLWB BLWYDDYN 6 YEAR 6 CLUB			
	6	7	8	9	10

W 6		CLWB BLWYDDYN 6 YEAR 6 CLUB		Cyfarfod Blynyddol GRhFF 3:45 PFA AGM	Diwrnod T Llew Jones Day
	13	14	15	16	17
W 7			Diwrnod Shwmae Shwmae Day		
	20	21	22	23	24
W 8	Noson Rien Parent's Evening	Noson Rien Parent's Evening	Gwasanaeth Diolchgarwch Blwyddyn 5  Year 5 Thanksgiving service		HMS INSET

**Gall digwyddiadau / dyddiadau newid**  
**Dates / events can change**

W - Wythnos / [Week](#)

HMS / [INSET](#):

<b>01/09/25</b>	<b>24/10/25</b>	<b>19/12/25</b>	<b>05/01/26</b>	<b>13/04/26</b>	<b>20/07/26</b>
-----------------	-----------------	-----------------	-----------------	-----------------	-----------------

**Hanner Tymor** – Bydd yr ysgol yn cau am 3:30yp ddydd Iau 23ain o Hydref ac yn ail agor Ddydd Llun, Tachwedd 3ydd.

**Half Term** – The school will close at 3:30pm on Thursday October, 23rd and will re-open on Monday, November 3rd.

Diolch / [Thank you](#),

Miss E H Powell